# Rydym yn gyffrous i lansio Rhaglen Gymunedol 2024.

I ymgeisio am grant o £2000 i roi cychwyn i gynlluniau eich grŵp, cwblhewch a chyflwyno ein ffurflen gais ar-lein erbyn **10am ar 30/01/24**.

Mae'r ffurflen gais hon ar gael yn Saesneg hefyd.

## Cyn cynchwyn...

**Darllenwch trwy'r cwestiynau i gyd.** Rydym wedi eu rhestru yn y ddogfen hon er mwyn ei gwneud hi'n haws ichi baratoi.

Cofiwch wneud yn siŵr eich bod wedi darllen ein canllaw ar-lein i ymgeiswyr a gwirio bod eich grŵp yn gymwys i dderbyn grant.

**Wrth gwblhau'r ffurflen ar-lein, gofynnir chi:**

1. Lanlwytho copi o lythyr / e-bost gan berchennog y gofod yn rhoi caniatâd ichi ei drawsnewid, os yn berthnasol i'ch prosiect.
2. Lanlwytho copi o bolisi a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion agored i niwed eich grŵp.
3. Rhannu dolen i fideo 'cyflwyniad cryno' pum munud o hyd eich grŵp.
4. Lanlwytho eich amserlen a chynllun cyllideb.
5. Gallwch hefyd lanlwytho hyd at dri llun i ddangos inni'r gofod yr ydych yn gobeithio ei drawsnewid.

**Dylai'r ffurflen gais ar-lein gael ei chwblhau gan y person fydd yn arwain y prosiect ar ran eich grŵp, bydd rhaid iddynt fod yn 18 oed neu'n hŷn.**

---

# Y cwestiynau:

## Am eich Grŵp

**1. Enw eich grŵp neu sefydliad**

**2. Nodwch brif gyfeiriad eich grŵp neu sefydliad.**

- Llinell cyfeiriad 1
- Llinell cyfeiriad 2
- Tref / Dinas
- Côd Post
- Gwlad

**3. Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio eich grŵp neu sefydliad orau.**

- Grŵp cymunedol
- Clwb / mudiad ieuenctid
- Cymdeithas trigolion / cymdogion
- Grŵp chwaraeon / hobi / diddordeb arbennig
- Coleg / prifysgol
- Awdurdod / bwrdd iechyd
- Grŵp amgylcheddol
- Arall (nodwch, os gwelwch yn dda)

**4. I fod yn gymwys i dderbyn grant, bydd rhaid i'ch grŵp / sefydliad fod â'r rheolaeth, polisïau a gweithdrefnau canlynol yn eu lle.**

- Cyfansoddiad neu ddogfen debyg sydd wedi ei chytuno a'i harwyddo gan eich grŵp, yn amlinellu pwrpas ac amcanion y grŵp
- Cyfrif banc yn enw eich grŵp / sefydliad
- Polisi cyfle cyfartal
- Polisi diogelu plant ac oedolion agored i niwed
- Polisi iechyd a diogelwch (yn cynnwys Covid-19)
- Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n addas at ddibenion y prosiect
- Canllawiau gwirfoddoli - os yn bwysig i'r prosiect

**5. Lanlwythwch gopi o bolisi a gweithdrefnau diogelu plant ac oedolion agored i niwed eich grŵp.** Rydym angen sicrhau eu bod yn cyd-fynd â rhai RBG, Kew.

Un ffeil yn unig.
Dim mwy na 256 MB.
Mathau a ganiateir: pdf, doc, docx.

**6. Nodwch, yn gryno, ers pryd y mae eich grŵp / sefydliad yn bodoli ac am unrhyw brosiectau blaenorol yr ydych wedi eu cwblhau.** (Hyd at 300 o eiriau)

**7. Os yw eich grŵp yn defnyddio sianelau cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus, nodwch yr enwau yr ydych yn eu defnyddio ar wahanol blatfformau. Os oes gennych wefan, gallwch nodi cyfeiriad eich gwefan yma hefyd.**

## Eich pobl

**8. Enwebwch berson yn brif gyswllt prosiect.**

Dyma'r person fydd yn gyfrifol am drosglwyddo'r prosiect a'r prif gyswllt ar gyfer Tyfu'n Wyllt. Mae rhaid iddynt fod yn 18 oed neu'n hŷn.

- Enw cyntaf y prif gyswllt prosiect
- Cyfenw'r prif gyswllt prosiect
- Teitl / rôl swydd y prif gyswllt
- Cyfeiriad e-bost y prif gyswllt
- Rhif ffôn y prif gyswllt

**9. Enwebwch berson yn ail gyswllt prosiect**

Mae rhaid i'r person fod yn 18 oed neu'n hŷn ac ni ddylent fod yn berthynas teuluol i'r prif gyswllt prosiect. Yn ddelfrydol dylai'r person yma fod yn rhywun mewn uwch-swyddogaeth, e.e. yn ymddiriedolwr neu'n gyfarwyddwr. Os yw'r uwch-berson hwn eisoes wedi ei enwebu'n brif gyswllt prosiect, cofiwch nodi enw rhywun arall yma, y gallwn gysylltu â hwy mewn argyfwng.

- Enw cyntaf yr ail gyswllt prosiect
- Cyfenw'r ail gyswllt prosiect
- Teitl / rôl swydd yr ail gyswllt
- Cyfeiriad e-bost yr ail gyswllt
- Rhif ffôn yr ail gyswllt

## Lleoliad eich prosiect

**10. Nodwch gyfeiriad stryd a chôd post ar gyfer y prif leoliad ble byddwch yn trosglwyddo eich prosiect**

Os nad oes gan eich lleoliad gôd post penodol, nodwch fanylion yr adeilad agosaf posibl.

- Llinell cyfeiriad 1
- Llinell cyfeiriad 2
- Tref / Dinas
- Côd Post
- Gwlad

**11. Gwybodaeth lleoliad ychwanegol?**

Mae lle yn y ffurflen gais ar-lein ichi rannu unrhyw fanylion ychwanegol fydd yn ein helpu i ddeall ble y lleolir eich prosiect.

**12. Tystiolaeth o ganiatâd gan y perchennog tir**
**Cofiwch lanlwytho copi o lythyr / e-bost caniatâd gan y person sy'n berchen y tir neu'r gofod(au) ble y cynhelir eich prosiect. Dylech sicrhau bod y person sy'n rhoi caniatâd ichi'n gwybod y caiff eu gwybodaeth ei rannu gyda Tyfu'n Wyllt, fel rhan o'r cais hwn. Os mai eich sefydliad neu eich grŵp sydd berchen y tir, dylech gadarnhau hyn trwy atodi llythyr ar bapur swyddogol eich grŵp.** *

Un ffeil yn unig.
Dim mwy na 256 MB.
Mathau a ganiateir: pdf, doc, docx.

**13. Os nad yw caniatâd perchennog tir yn berthnasol i'ch syniad prosiect, eglurwch yn gryno pam mae hyn.**

## Eich syniad prosiect

**14. Dyma ble rydym yn gofyn ichi nodi eich 'cyflwyniad cryno' ble byddwch yn dweud wrthym am eich syniadau.**

**Yn eich cyflwyniad, cofiwch sôn wrthym...**

1. Cyflwyno eich grŵp.
2. Beth yw eich syniad am brosiect a sut fyddwch yn ei gyflawni.
3. Y gofod yr ydych am ei drawsnewid, gallwch ddangos neu ddisgrifio hwn.
4. Sut fydd eich prosiect yn cael effaith positif ar gyfer bioamrywiaeth yn cynnwys tyfu planhigion brodorol y DU.
5. Pwy fyddwch yn eu cynnwys yn y prosiect a sut y byddant yn cael budd ohono.

Cofiwch sicrhau eich bod wedi derbyn caniatâd gan bawb sydd yn y fideo a'ch bod wedi dweud wrthynt y caiff ei rannu gyda Tyfu'n Wyllt. Os yw eich fideo'n cynnwys pobl ifanc o dan 18 oed, bydd rhaid ichi dderbyn caniatâd gan eu rheini.

Gludwch ddolen i'ch fideo yma. Gwnewch yn siŵr bod y ddolen yn agored i Tyfu'n Wyllt ei gweld. Dylai fideos fod yn ddim hwy na 5 munud.

**15. Gallwch hefyd lanlwytho hyd at dri llun i ddangos inni'r gofod yr hoffech ei drawsnewid.** Mae hyn yn opsiynol, ond rydym yn awyddus i wybod cymaint â phosibl am leoliad eich prosiect.

Gellir lanlwytho tri llun.
Dim mwy na 256 MB.
Mathau a ganiateir: gif, jpg, jpeg, png

**16. Dywedwch wrthym sut gaiff eich prosiect effaith positif ar gyfer pobl leol ac helpu i wella bioamrywiaeth yn lleol. (Hyd at 300 o eiriau)**

**17. Cofiwch lanlwytho eich amserlen a chynllun cyllideb ar gyfer y prosiect.**

Ceir dogfen dempled i'w lawrlwytho a'i chwblhau, ynghyd â chyfarwyddiadau llawn, ar wefan Tyfu'n Wyllt: https://growwild.kew.org/cy/apply-grant/community-programme/ymgeisiwch-i-ymuno-gyda-rhaglen-gymunedol-tyfun-wyllt

Mae Tyfu'n Wyllt yn awyddus i ariannu grwpiau sy'n malio am y blaned ac fydd yn dewis deunyddiau ac arferion cynaliadwy wrth gyflawni eu prosiect. Fel rhan o hyn, gofynnwn i bob grŵp llwyddiannus ymrwymo i ddim ond prynu compost di-fawn.

**18. Dywedwch wrthym am unrhyw gamau eraill y bydd eich grŵp yn eu cymryd i fod yn amgylcheddol gyfeillgar ac unrhyw ddewisiadau cynaliadwy y byddwch yn eu gwneud.** Er enghraifft, defnyddio deunyddiau eilgylch, prynu'n lleol, compostio, gosod casgen casglu dŵr, peidio defnyddio plaladdwyr, ayyb. (Hyd at 300 o eiriau)

**19. Os yn llwyddiannus, bydd angen i'ch prosiect a ariennir gan Tyfu'n Wyllt gael ei gwblhau'n ystod misoedd yr haf, a bydd angen gwario eich grant llawn erbyn diwedd mis Hydref 2024.** Nodwch yma os oes unrhyw beth allai effeithio ar amseru eich prosiect**.**

## Cynnwys pobl eraill

Mae'r tri chwestiwn nesaf am y bobl yr ydych yn disgwyl eu cynnwys yn eich prosiect. Mae hyn er mwyn inni ddysgu pwy y mae ein mentrau'n eu cyrraedd.

**20. Pa oed ydych chi'n disgwyl fydd y mwyafrif o bobol fydd yn cymryd rhan neu'n cysylltu gyda'ch prosiect?** Os ydych yn disgwyl cynnwys cymysgedd o oedrannau, dylid dewis y grŵp oedran yr ydych yn disgwyl gaiff ei gynrychioli fwyaf.

- Plant dan 12 yn bennaf
- Pobl ifanc 12-25 yn bennaf
- Oedolion 25+ yn bennaf

**21. Fydd eich prosiect yn cynnwys neu'n cysylltu gyda phobl o'r grwpiau canlynol? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.**

- Pobl sy'n profi rhyw fath o anfantais neu lai o fynediad i wasanaethau
- Pobl sy'n ymgysylltu llai gydag eraill yn eu cymuned leol
- Pobl sy'n wynebu rhwystrau i gysylltu gyda natur
- Pobl anabl

**22. I'r 10 agosaf, nodwch sawl person ydych chi'n disgwyl fydd yn ymuno yn / cysylltu gyda'ch prosiect?**

Nodwch gyfanswm eich amcangyfrif gorau. Gall hyn gynnwys pobl fydd yn cysylltu gyda'ch prosiect yn uniongyrchol a hefyd trwy gamau gweithredu ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Cofiwch gynnwys aelodau eich grŵp fydd yn weithgar wrth arwain y prosiect a'ch cynulleidfa / cyfranogwyr ehangach disgwyliedig.

## Cysylltu a rhannu profiadau

Bydd Tyfu'n Wyllt yn hwyluso sesiynau cwrdd a hyfforddiant ar-lein ar gyfer arweinyddion grwpiau llwyddiannus. Bydd eich atebion i'r cwestiynau canlynol yn ein helpu i gynllunio'r sesiynau hyn ar gyfer 2024.

**23. Os bydd cais eich grŵp yn llwyddiannus, pa mor awyddus fyddai arweinyddion prosiect o'ch grŵp i gymryd rhan mewn sesiynau ar-lein a hwylusir gan Tyfu'n Wyllt?**

- Awyddus iawn i fynychu – mae'n rhywbeth y byddem yn edrych ymlaen ato
- Gweddol awyddus i fynychu
- Ddim yn awyddus iawn i fynychu neu'n teimlo y byddai'n anodd mynychu (dywedwch pam)

**24. Pa bynciau fyddai eich grŵp yn awyddus i raglen hyfforddiant ar-lein Tyfu'n Wyllt eu cynnwys yn 2024? Dewiswch hyd at bedwar pwnc o'r rhestr isod.**

- Pwysigrwydd planhigion brodorol y DU.
- Hau hadau blodau gwyllt yn llwyddiannus.
- Coed brodorol y DU, eu hadnabod a'u tyfu.
- Adnabod a monitro peillwyr.
- Denu a rheoli gwirfoddolwyr.
- Rhedeg prosiect cynhwysol a denu cynulleidfaoedd amrywiol.
- Adrodd straeon digidol – defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo eich prosiect
- Iechyd, diogelwch a diogelu – eich cyfrifoldebau.

- Tyfu gyda natur – sut i annog bywyd gwyllt yn eich gofod.
- Rhywbeth arall – nodwch, os gwelwch yn dda.

## Cefnogaeth i’ch prosiect

Bydd tîm Tyfu’n Wyllt wrth law i gynnig cefnogaeth prosiect cyffredinol i’r grwpiau llwyddiannus. Ond mae’n bwysig nodi NA fydd modd i dîm Tyfu’n Wyllt **eich cynghori ynghylch agweddau technegol neu dydd-i-ddydd eich prosiect.**

Am y math hwn o gymorth, gofynnwn ichi holi arbenigwyr lleol. Unai unigolion gwybodus y mae eich grŵp yn eu hadnabod neu sefydliadau lleol gyda’r sgiliau sydd eu hangen. Efallai y cewch hyn am ddim, neu gallwch ddefnyddio cyfran o’ch grant i dalu am y cymorth yma.

**25. Dywedwch wrthym am unrhyw bobl gwybodus neu sefydliadau eraill fydd yn eich helpu gyda’ch prosiect. (Hyd at 300 o eiriau)**

## Eich dewisiadau cyfathrebu

Ar ddiwedd y ffurflen gais ar-lein gofynnir ichi os hoffech glywed mwy gan Tyfu’n Wyllt yn y dyfodol, trwy ddiweddariadau e-bost a thrwy dderbyn ein cylchlythyr. Cewch ddewis eich hoff ffordd o gyfathrebu.

## Diwedd y cwestiynau

Cofiwch, os byddwch angen help i ymgeisio neu os oes gennych gwestiynau, e-bostiwch dîm Tyfu’n Wyllt: hellogrowwild@kew.org